### *Chwiorydd y Garn*



Dymuna Pwyllgor Chwiorydd y Garn ddiolch i'r rhai fu'n helpu ar y stondinau ac yn y gegin ddiwrnod y ffair ar 25 Tachwedd, ac i'r llu cymwynaswyr a ffrindiau a gyfrannodd mewn nwyddau ac arian.

Cafwyd ffair lwyddiannus, a gwnaed elw o £1328.50. Penderfynwyd trosglwyddo £1,000 ohono i gronfa'r Eglwys.

### *Mynwent y Garn*

Yn anffodus, ar ôl y storm wynt a gafwyd yn ystod yr wythnos olaf ym mis Tachwedd, mae rhai colofnau uchel wedi disgyn yn y fynwent. Mae llawer o gerrig beddau hefyd wedi eu sigo neu wedi gostwng. Mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol o reolau diogelwch y Cyngor Sir, sydd yn ymweld â mynwentydd ac yn tynnu i lawr gerrig beddau a all fod yn anniogel, ac felly'n beryglus.

Fe chwalwyd sied y fynwent hefyd, a bydd yn rhaid cael rhywun i'w thrwsio neu godi un newydd – rhagor o gostau!

*Eddie Jones* (Goruchwyliwr y Fynwent)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 11 Mawrth i:



| | |
|---|---|
| Mr Dewi G Hughes | Mrs Marian B Hughes |
| Bod Hywel | 14 Maes y Garn |
| (828026) | (828662) |
| dewighughes@lineone.net | marian_hughes@btinternet.com |


# Gair o'r Garn


Cylchlythyr Eglwys y Garn,

Bow Street

Rhif 24 www.capelygarn.org Calan 2007


***Ysgrifennydd***

Mr Eddie Jenkins

Eryl

Llandre

Bow Street


(01970 828147)

*Cyflwyniad a chroeso i'r Parchedig Wyn Rhys Morris, ein gweinidog newydd*

Ar drothwy 2007 allwn ni ddim ond edrych yn ôl a rhyfeddu at yr amser sydd wedi hedfan unwaith yn rhagor. Union flwyddyn yn ôl, fe'n cyfarchwyd gan y Parchedig R W Jones am y tro olaf cyn iddo ymddeol ar ôl cyfnod arbennig iawn o weinidogaethu arnom am ddeuddeg mlynedd – cyfnod bendithiol iawn i ni oll. Dymunwyd yn dda iddo ef a Rhian yn eu hymddeoliad yn Wrecsam.

Yn sgil ymddeoliad y Bugail, fe fu'r flwyddyn a aeth heibio yn un arbennig o weithgar i aelodau Pwyllgor Bugeiliol yr Ofalaeth wrth iddo baratoi i alw'r Parchedig Wyn Rhys Morris, BA, BD, yn weinidog arnom. Mawr oedd ein llawenydd wrth iddo yntau fynegi ei barodrwydd i ymateb yn gadarnhaol i'n galwad iddo, a da felly yw cofnodi i'n hymdrechion ddwyn ffrwyth bendithiol iawn i ni oll fel aelodau o Eglwys Iesu Grist yn yr ardal hon. Arwydd o hynny yw'r bleidlais unfrydol o gefnogaeth iddo a gafwyd yn y Pwyllgor Bugeiliol, ac yna gan aelodau eglwysi'r ofalaeth a oedd yn bresennol yn y gwasanaethau ddydd Sul, 12 Tachwedd.

Yn ystod y misoedd diwethaf, daeth yn amlwg fod disgwyl mawr am weinidog i olynu'r Parchedig R W Jones – arwydd clir eto o'r angen ysbrydol sydd yn bodoli yma. Edrychwn ymlaen, felly, at barhad y fugeiliaeth ac arweiniad y dystiolaeth ysbrydol i ni i gyd o fewn eglwysi'r ofalaeth gan y Parchedig Wyn Morris, fel y gallwn symud ymlaen yn hyderus gydag ef. Brodor o Fancycapel, ger Caerfyrddin, yw Mr Morris, ac fe ddaw atom yn dilyn cyfnod o wyth mlynedd yn weinidog ar ofalaeth Dosbarth Llanfynydd, Henaduriaeth Gogledd Myrddin. Rydym yn estyn ein croeso cynhesaf iddo ef a'i briod Judith atom tua dechrau Ebrill 2007. Mae Mrs Judith Morris hefyd wedi derbyn galwad i fod yn weinidog ar Ofalaeth Eglwysi Bedyddwyr Cylch Aberystwyth, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at gyfnod newydd o gydweithio rhwng yr enwadau.




Yr oedd cyhoeddi *Caneuon Ffydd* yn Ionawr 2001 yn gyfle i gyflwyno emynau a thonau cyfarwydd a hefyd rai newydd i gynulleidfaoedd a phobl Cymru yn gyffredinol ledled y wlad. Y mae'r ffaith fod y casgliad wedi gwerthu wrth y miloedd a'i fod yn awr yn ei drydydd argraffiad yn brawf fod y diddordeb byw yn y rhan hon o'n treftadaeth yn parhau.

Bwriad *Cydymaith Caneuon Ffydd* yw rhoi hanes cryno pob emyn a thôn yn y casgliad, ynghyd â chynnig bywgraffiad byr o bob emynydd, cyfansoddwr a chyfieithydd. Y mae ynddo hefyd gyflwyniad sylweddol i hanes emynyddiaeth Gymraeg. Elfen ddifyr yn y *Cydymaith* yw'r sylw sy'n cael ei roi i gynifer o hanesion diddorol, ac annisgwyl weithiau, am gysylltiadau cyfansoddi llawer o'r emynau a'r tonau. Cewch atebion i'r rhan fwyaf o'ch ymholiadau a chodi hefyd lawer o wybodaeth wrth bori yn y *Cydymaith*.

Pris: £17.95

### *Grŵp Help Llaw*

Fe gyfarfu'r Grŵp Help Llaw yn rheolaidd yn ystod y tri mis a aeth heibio. Cyfrannwyd gwaith gwau a theganau meddal i Eric Harries i fynd allan i Bosnia, a theganau hefyd i siop Byddin yr Iachawdwriaeth yn Aberystwyth.

Cefnogwyd yr ysgol Sul yn nhymor y Diolchgarwch a Thŷ Gobaith drwy brynu cardiau Nadolig a thocynnau raffl.



Aethpwyd â thros hanner cant o focsys Operation Christmas Child a £164 o nawdd i'r ganolfan ddosbarthu yn Wrecsam.

Derbyniwyd dros ddau gant o barau o esgidiau ar gyfer y cywaith Shoebiz – cynllun i godi arian i helpu'r difreintiedig ym Malawi.

Cyflwynwyd dros 15,000 o stampiau i OXFAM, a'r gobaith yw y dewch â'ch stampiau Nadolig i ni eleni eto.

Daeth y tymor i ben gydag ymweliad â Chartref Tregerddan i ganu carolau a rhannu anrhegion. Rydym fel grŵp yn ddiolchgar am bob cyfraniad a chefnogaeth.

Mewn amserau sy'n newid, hyderir y gwelwn gefnogaeth deilwng i'n Bugail newydd, ac y bydd pob un ohonom yn bwrw ati i rannu'r baich o gynnal yr Achos a hyrwyddo neges yr Efengyl yn yr eglwys a'r ardal. Dan arweiniad ein gweinidog, gobeithir y gellir cyd-drafod syniadau newydd a fydd yn arwain at gryfhau ein hymroad a'n brwdfrydedd i sicrhau bod yr achos Cristnogol yn parhau ac yn ffynnu yma yn y Garn a'r fro. Ein gobaith a'n hanogaeth, felly, yw y gwelwn y rhai hynny ohonoch sydd yn raddol wedi dieithrio yn ystod y cyfnodau a aeth heibio yn ailgydio o'r newydd, ac edrychwn ymlaen at gael eich cwmni yn ein hoedfaon unwaith yn rhagor.

Ar ddechrau blwyddyn, cofiwn am y rhai sydd heb fod yn dda eu hiechyd a'u hamgylchiadau ble bynnag y bônt, a dymunwn iddyn hwy, fel i bob aelod o'r eglwys, Nadolig llawen a bendithiol a blwyddyn newydd lewyrchus.

*D Bryn Lloyd*

Cynhelir gwylnos
dan arweiniad y
Parch W J Edwards
nos Sul
31 Rhagfyr 2006
am 11.30 o'r gloch.

Dewch i groesawu'r flwyddyn
newydd mewn ysbryd o
fyfyrdod ac addoliad



### *Gair o Fethlehem*

Mae hi'n gyfnod yr ADFENT, sef tymor y closio at ein gilydd yn deuluoedd ac yn ffrindiau. Daw plant adref erbyn y Nadolig – i'w hen gartref i ailbrofi amserau cyfarwydd bore oes. Efallai y dônt i ddeffro atgofion yng nghapel y Garn drwy fodio neu rifo'r tyllau dal-y-llestri-gwin sy' ar flaen y côr teuluol, neu hwyrach i ryfeddu at yr arwyddion newydd sydd uwchben y drysau!

Mae tipyn o edrych ymlaen at yr amser hwn ac, wrth gwrs, llawer o baratoi ar ei gyfer. Dyma ddathliad penna'r flwyddyn, sef dathliad geni Ceidwad a Gwaredwr y byd. Er yr holl drimins a'r ffal-di-rals masnachol a ddaw yn ei sgil, hyn yw hanfod y Nadolig – y rheswm dros y dathlu. Fe'i gwelir yn yr hen garolau Cymreig lle cysylltir y Geni â'r Groes. Un o'r carolau hyfrytaf, gan awdur anhysbys, yw:

Ar fore dydd Nadolig
esgorodd y forwynig
ar Geidwad bendigedig,



a'r ail bennill,

Dros euog ddyn fe'i lladdwyd,
Ac mewn bedd gwag fe'i dodwyd
Ar ôl y gair 'Gorffennwyd'.

Yna'r trydydd, gan ymbil ar Fair mewn gweddi:

Ger gorsedd nef eiriola'n gref
A chwyd dy lef drosom ni.
O Geidwad aned,
Fe wawriodd arnom ddydd.

Yr holl hanes sy'n gymen mewn tri phennill. Fe'i gwelwch eto yng ngharol 'Y Swper', lle cenir yr holl hanes mewn deg o benillion ar fesur sydd dipyn yn hwy. Fel rheol, fe genir tri ohonynt i orffen y gwasanaeth Plygain.

### Mawrth

**4** *Parch M J  Morris*

7 Cyfarfod Chwiorydd y Garn am 2 o'r gloch

Henaduriaeth Gogledd Aberteifi yn y Garn
am 6.30 o'r gloch

**11** *Parch Adrian Williams*
Cymun yn oedfa'r bore

16 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Dau Gyfaill Oes', Mr Gwynfor Hughes, Caerdydd

**18** *Hywel Slaymaker*

20 'Credu Heddiw' – y drydedd mewn cyfres o sgyrsiau
gan Iolo Lewis am 7 o'r gloch

23 Pwyllgor Swyddogion am 7 o'r gloch

**25** *Parch Cen Llwyd*

Bore Sul y Pasg, 8 Ebrill,
cynhelir oedfa arbennig
i'r ofalaeth gyfan
dan arweiniad
ein gweinidog newydd,
y Parchedig Wyn Morris,
yn y Garn
am 10 o'r gloch



Arglwyddi, frodyr a chwiorydd,
byddwch lawen
a chedwch eich ffydd a'ch cred,
a gwnewch y pethau bychain
a glywsoch ac a welsoch gennyf fi.

(*Dewi Sant, 6ed ganrif*)




***Diolchgarwch yr Ysgol Sul***




Yn dilyn y Cyfarfod Diolchgarwch, aethpwyd â'r ffrwythau a'r llysiau a gyflwynwyd gan y plant yn rhoddion i drigolion Afallen Deg. Roeddent yn ddiolchgar iawn amdanynt.

Trosglwyddwyd casgliad y Cyfarfod Diolchgarwch, sef £59.80, i gronfa Tearfund.

Diolch i Janet Roberts, trysorydd yr ysgol Sul, am ofalu am y trefniadau.




Dyma gyfnod y rhoi a derbyn anrhegion. Carwn gymeradwyo rhodd arbennig iawn i chi ei roi eleni – neu ei dderbyn, wrth gwrs! – sef llyfr o waith y Parchedig Vivian Jones, *Y Nadolig Cyntaf*. Dyma lyfr cynhwysfawr ond hawdd ei ddarllen, sy'n egluro cyfnod yr Adfent mewn dull cwbl gyfoes, gan sôn am baratoi at y dathliad yn bersonol ac yn deuluol fel hyn:

'Gyrru cardiau i rai unig neu a gollodd anwyliaid neu waith yn ystod y flwyddyn. Dewis anrhegion ymlaen llaw fel na fydd raid mynd yn ysglyfaeth i fyd masnach ar y diwedd. Gyrru cardiau a rhoi anrhegion i rai nad ydynt yn debyg o dderbyn llawer. Danfon cyfraniad sylweddol iawn i achos da.

'Gallwn baratoi'n ymarferol yn deuluol. Trefnu pryd o fwyd ryw wythnos cyn y Nadolig. Gofyn i bawb o'r teulu, gan gynnwys yr ifanc, i ddod â rhywbeth, ac wedi bwyta, yn lle clirio'r llestri, dal i eistedd a siarad – nid yw'r ifanc heddiw yn clywed digon o siarad gan oedolion, nac oedolion siarad gan yr ifanc. Yna pawb, hen ac ifanc, i glirio gyda'i gilydd.'

Wrth sôn am ganeuon moli – y Cantiglau – yn Efengyl Luc, mae'n egluro sut mae ysbryd y caneuon hyn yn dylanwadu ar ein dathliad Nadolig:

'Mae ym mhawb ohonom ddyfnderoedd sydd am ran helaeth o'n bywydau'n cael eu gorchuddio. Gall ofn rhag i ni fethu â gallu gofalu am ein hanghenion ein hunain ryw ddydd a ddaw gwtogi ar ein haelioni wrth i ni gyfrannu at achosion da heddiw. Gall ystyfnigrwydd beri i ni ddal at y pleser o gasáu rhywun a droseddodd yn ein herbyn, ac i ohirio bodloni'r awydd gwell ynom i faddau ...

'Mawl iddo sy'n ei gwneud yn bosibl i ni adnabod Duw yn well ... Mae mawl i Dduw yn agor yr enaid i adnabyddiaeth ohono meddent, ac mae'n ein cymhwyso ni i ddysgu amdano ...'

Prynwch y llyfr i gael gweld trosoch eich hun am £7.95! Ac yn y cyfamser, canwch emyn Alice Evans, rhif 445 yn *Caneuon Ffydd.*

*Gaenor Hall*

### ***Nadolig***

*'Er cerdded a cherdded drwy'r dre, weles i ddim seren'*

*– Dilys, ar ôl bod yn siopa*

Daeth Rhagfyr a'i gynnwrf i'r siopau eleni
Gan elwa ar breseb rhyfeddol y Geni.

Aeth aur, thus a myrr o ddwylo'r doethion
Dros gownter i dalu am ddiodydd poethion.



Ac onid peryglus yn ôl y sôn
Yw syllu ar seren drwy dwll yr osôn?

Mae rheolau iechyd a diogelwch
Wedi clirio'r stabal fel y gwelwch.

Ym Mradford a Hull cenir ceinicau'r gaea
Rhag damsang ar draed plant Asia Leia.

A yw'r seren blastig yn ffenest Gaer-wen
Yn dwyn y goleuni o'r seren uwchben?

Na, na, os yw'r cyfrwng yn newid ei drem,
Ni phylodd y neges o Fethlehem.

Yr un yw y Ceidwad a anwyd o Fair
A oleuodd y byd o'r gwely gwair.

Ond tybed nad ydyw y seren eleni
Un cilowat cryfach oherwydd y Geni?

*Vernon Jones*

### **Chwefror**

**4** *Dr Rhidian Griffiths*

7 Cyfarfod Chwiorydd y Garn am 2 o'r gloch
'Profiadau mewn ysbyty yn y pumdegau', Beryl Hughes

**11** *Parch Ifan Mason Davies*
Cymun yn oedfa'r bore

16 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Noson o Deithio' gyda Gwynfryn ac Eryl Evans

**18** *Richard Llwyd Jones*

20 'Credu Heddiw' – yr ail mewn cyfres o sgyrsiau
gan Iolo Lewis am 7 o'r gloch

**25** *Parch Gwyn Madoc Jones*

27 Cyfarfod Dosbarth y Garn a Phen-llwyn
Oedfa gymun dan arweiniad y Parchedig Elwyn Pryse
Capel Pen-llwyn am 7 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

***'Credu heddiw' – cyfres o sgyrsiau gan Iolo Lewis***

Un agwedd o'r argyfwng sy'n wynebu'r Eglwys yw argyfwng cred. Yng ngoleuni hyn rhaid ceisio ateb y cwestiwn, "Beth a ellir yn rhesymol ei gredu heddiw?" Rhaid i bob cenhedlaeth ffurfio ei diwinyddiaeth ei hun gan gymryd i ystyriaeth ddatblygiadau mewn ysgolheictod Feiblaidd a gwybodaeth ddilys mewn meysydd ar wahân i ddiwinyddiaeth. Diben y sgyrsiau hyn fydd trafod egwyddorion sylfaenol y gorchwyl hwn.

Y mae Iolo Lewis yn gyn-ddarlithydd mewn Addysg Grefyddol yn Adran Addysg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, ac yn awdur nifer o erthyglau ar bynciau megis 'Croesi'r mileniwn: cadw'r ffydd' a 'Methodistiaeth a bugeilio eneidiau'.

Cynhelir y sgyrsiau hyn unwaith y mis ar nos Fawrth yn festri'r Garn am 7 o'r gloch.

Croeso cynnes i bawb

*O Dduw, trwy fyfyrio arnat a cheisio dy ddilyn,*
*gad inni dy adnabod yn llawnach.*

'Boed i ni dy adnabod di'n llwyrach,

dy garu'n anwylach,

a'th ddilyn yn agosach,

bob dydd o'n hoes.'

(Gweddi Richard o Chichester)

(Glyn Tudwal Jones, *Ffordd Bywyd*, t. 42)

**Ionawr**

3 Cyfarfod Chwiorydd y Garn am 2 o'r gloch

**7** *Parch Elwyn Pryse*
*Parch W J Edwards*

9 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth am 6 o'r gloch
Gweithgor Ieuenctid am 7.30 o'r gloch

10 Y Grŵp Help Llaw yn ailddechrau

12 Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 7 o'r gloch

**14** *Parch Andrew Lenny*
Cymun yn oedfa'r bore

19 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Cenhadu yn yr India'
Yr Athro Aled Gruffydd Jones, Aberystwyth

**21** *Parch Harding Rees*

26 Pwyllgor Swyddogion am 7 o'r gloch

**28** *Parch Wiliam Owen*
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

30 'Credu Heddiw' – y gyntaf mewn cyfres o sgyrsiau
gan Iolo Lewis, Aberystwyth, am 7 o'r gloch

***GOBAITH Y DYFODOL***
***~ cyfle arbennig cydenwadol i'r fro***

A ydym yn wirioneddol yn barod i estyn breichiau i'n cyd-aelodau, i'n cymuned, i'n bro? Beth am hynt ein hieuenctid sy'n wynebu heriau arbennig a'r pwysau i benderfynu blaenoriaethau eu gweithgaredd – y "peer pressure" bondigrybwyll – llawer ohonynt yn fwy ffasiynol na mynychu'r ysgol Sul a'r capel? Capel a chrefydd gyfundrefnol wedi colli eu hapêl, efallai? Beth ydym ni'n ei wneud i gyrraedd at yr ieuenctid? Onid oes gennym gyfrifoldeb tuag atynt a dyletswydd i gynnig cyfle iddynt gadw cyswllt â'r eglwys?

Yr ystyriaethu hyn fu'n sbardun i grŵp o aelodau'r Eglwys ymgynnull ychydig yn ôl i drafod syniad a fu'n cyniwair ymhlith athrawon yr ysgol Sul a rhieni pobl ieuainc yr Eglwys. Cafwyd derbyniad gwresog o sawl cyfeiriad i'r weledigaeth o ddarparu gweithgareddau ar gyfer ieuenctid yn eu harddegau er mwyn meithrin a pharhau perthnas rhwng yr ieuenctid a'r eglwys.

Yn ystod y trafodaethau cychwynnol, penderfynwyd lledaenu'r drafodaeth i holl eglwysi'r fro ~ nid yn unig eglwysi'r ofalaeth estynedig, ond i enwadau eraill y cylch. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn gyda'r ewyllys i gydweithio ar draws enwadau … yn Anglicaniaid, yn Fedyddwyr, yn Annibynwyr a Phresbyteriaid o Gapel Seion, o Daliesin a Chapel Madog i'r Borth ... gan bwysiced ymgyrchu i hyrwyddo gweithgareddau ymhlith ieuenctid yr ardal. Cytunwyd yn unfrydol â'r angen a'r bwriad i sefydlu gweithgareddau amrywiol, cyfoes a deniadol ar seiliau Cristionogol a fyddai'n apelio at ein hieuenctid.



Yn ddiweddar, daeth Siôn Evans, Is-warden a Swyddog Ieuenctid Coleg y Bala, at y grŵp i gynnig arweiniad, ac ysbrydolodd y rhai oedd yn bresennol i fwrw 'mlaen â'r syniad. Da oedd croesawu'r Parchedig Wyn Rhys Morris, ein darpar Fugail, atom i'r cyfarfod hwnnw ac iddo rannu o'i brofiad yn ei ofalaeth bresennol.

Hyderir y gallwn ddibynnu ar ymateb gadarnhaol holl aelodau'r Garn i wireddu'r weledigaeth, gan bwysleisio yr erys yr her i sicrhau gwasanaeth gwirfoddolwyr i gefnogi'r fenter ac yn arbennig y rhai hynny sy'n fodlon cymryd at arweinyddiaeth yr hyn sy'n arfaethedig. Gobeithiwn y bydd Clwb Ieuenctid dan nawdd Eglwysi'r fro yn cael ei sefydlu yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

Cefnogwch weledigaeth athrawon ysgol Sul y Garn i ddarparu ar gyfer ein hieuenctid. Manteisiwch ar bob cyfle i sôn am y fenter ac i annog cyd-aelodau i wirfoddoli i sicrhau llwyddiant y fenter.

*Dewi G Hughes*